

## Rheolwr Prosiect Cynhwysiant, BFI FAN

### Disgrifiad Swydd

- **Adran:** Canolfan Ffilm Cymru
- **Teitl Swydd:** Rheolwr Prosiect Cynhwysiant, BFI Film Audience Network
- **Taliad:** £250 y dydd (gan gynnwys unrhyw NI a PAYE)
- **Contract:** Cyfanswm o 65 diwrnod (tua 2 ddiwrnod yr wythnos rhwng Ebrill 2022 a Hydref 31ain 2022)
- **Lleoliad:** Gall gweithwyr llawrydd weithio o unrhyw le ar draws y DU. Mae lle ar gael yn Chapter, Caerdydd. Mae teithio ar draws y DU yn ofyniad.
- **Atebol i:** Rheolwraig Strategol, Canolfan Ffilm Cymru
- **Atebol am:** Dim cyfrifoldebau adrodd uniongyrchol. Goruwchywlio gweithwyr llawrydd ac interniaid.

### Diben y Swydd

Bydd deiliad y swydd yn gweithio gyda Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) BFI (Sefydliad Ffilm Prydain) drwy Hwb Arweiniol Canolfan Ffilm Cymru (FHW) - i gyflwyno Sinema Cynhwysol - prosiect DU gyfan, wedi'i ddilynio i gefnogi mynediad a chynhwysiant ar draws aelodaeth arddangosfa ffilm FAN.

Nod y prosiect yw cefnogi hyder ac effeithiolrwydd FAN, yn arwain tuag at fwy o gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth amrywiol a mynediad teg i ffilmiau annibynnol a rhyngwladol Prydeinig i gynulleidfaoedd.

### Cyfrifoldebau

#### Rheoli Prosiect

- Gweithio gyda'r 'Film Distributor's Association' ar brosiect fersiynau hygyrchol (10 ffilm gyda fformatau hygyrch),
- Goruchwylio datblygiad adnodd i gefnogi twf cynulleidfaoedd dosbarth gweithiol mewn gofodau sinema annibynnol,
- Gweithio gyda phartneriaid sefydledig ar 'Sidecar', adnodd sy'n cyfeirio at ffilmiau gydag isdeitlau disgrifiadol a sain,
- Goruchwylio datblygiad cyfres o bodlediadau sy'n gefnogi bobl Traws\*,

## **Ymchwil a Datblygu / Gwerthuso**

- Comisiynu astudiaethau achos o aelodaeth 'FAN' yn dangos arfer cynhwysol,
- Goruchwylio cwblhau arolwg mynediad 2022,
- Cwblhau adroddiadau chwarterol i gyllidwyr.

## **Partneriaethau**

- Trefnu cyfarfodydd o'r grwpiau cyngori Sinema Cynhwysol sy'n llywio datblygiad y prosiect,
- Cynnig cyngor i aelodau 'FAN' a Hybiau lle bo'n berthnasol.
- Diweddarau contractau partner a gwybodaeth am daliadau.

## **Codi arian**

- Goruchwylio cais i gefnogi dangosiadau ymchwil a datblygu ar gyfer cynulleidfaoedd B/byddar ac anabl.

## **Cyfathrebu**

- Diweddariadau i inclusivecinema.org a gweithio gyda Swyddog Cyfathrebu FHW i ddiweddarau llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Sinema Cynhwysol,

## **Amrywiol**

- Unrhyw ddyletswyddau eraill fel ag y mae'n rhesymol ofynnol gan y Brif Weithredwraig neu Reolwraig Strategol Canolfan Ffilm Cymru,
- Ymgyswddo â phob agwedd berthnasol o lechyd a Diogelwch, gweithrediadol, personol, gofal cwsmer, Diogelu Data ac ariannol, gan sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl rwymedigaethau statudol, yn enwedig mewn perthynas â deddfau trwyddedu a chymorth cyntaf,
- Rhaid cyflawni dyletswyddau deiliad y swydd bob amser mewn cydymffurfiaeth gyda pholisi Cyfle Cyfartal Chapter gan sicrhau cyfle cyfartal i bob person yn fewnol ac yn allanol i Chapter.

## **Amodau Arbennig**

- Efallai y bydd angen oriau gwaith hyblyg yn cynnwys penwythnosau/gyda'r nos a rhywfaint o deithio o amgylch Cymru. Caiff ymagwedd hyblyg ei mabwysiadu i sicrhau bod ymgeiswyr gyda gofynion mynediad/galwadau gofalmwr yn derbyn cefnogaeth,
- Anogir ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol i ddod â'u profiad i'r rôl ac i feithrin dealltwriaeth ehangach oddi mewn i dîm Canolfan Ffilm Cymru a'r FAN ehangach,

- Dydy'r disgrifiad swydd yma ddim wedi'i fwriadu i fod yn gyflawn. Fe fydd disgwyl i ddeiliad y swydd fabwysiadu ymagwedd hyblyg tuag at ddyletswyddau all fod yn amrywiol (yn dilyn trafodaeth gyda deiliad y swydd) yn amodol i anghenion y corff, ac yn unol â phroffil cyffredinol y swydd.

## Manyleb y Person

### Sgiliau/gallu hanfodol

- Profiad amlwg o reoli prosiect ar raddfa debyg,
- Deall y rhwystrau y mae cymunedau lleiafrifol ac/neu unigolion gyda rhwystrau i fynediad yn eu wynebu,
- Addysg i lefel gradd neu brofiad gwaith cyfatebol,
- Profiad mewn dyfeisio a chyflwyno gweithdai ac/neu adnoddau,
- Profiad o ddelio gyda'r wasg a'r cyfryngau,
- Sgiliau cyfathrebu, ysgrifenedig a llafar ardderchog,
- Y gallu i weithio ar eich pen eich hun a chymryd y cam cyntaf,
- Profiad o weithio gyda sawl partner a rhanddeiliaid,
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog,
- Llythrennedd TG, yn benodol y wê, ymgyrchoedd e-bost, cyfryngau cymdeithasol Y gallu i weithio dan bwysau ar dasgau sydd yn cale eu gyrru gan sawl dyddiad cau,
- Gwybodaeth am godi arian.

### Dymunol

- Gwybodaeth am y sector arddangos ffilmiau a'r diwydiant ffilmiau ehangach,
- Profiad o adrodd i gyllidwyr,
- Rheolaeth cyllideb,
- Y gallu i siarad Cymraeg ar gyfer ceisiadau yng Nghymru.

## Ceisiadau

Fe fydd y rhestr fer ar gyfer cyfweiliadau yn seiliedig ar ymgeiswyr yn diwallu'r meini prawf hanfodol a restrir yn y swydd ddisgrifiad. Cyfeiriwch at bob pwynt yn eich cais.

### Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 9am Ebrill 4ydd

Fe fyddwn yn cysylltu gyda'r ymgeiswyr ar y rhestr fer erbyn Ebrill 7edd a chynhelir y cyfweiliadau ar Ebrill 12ed, ar-lein drwy Zoom.

Y dyddiad cychwyn delfrydol i ymgeiswyr yw mis Ebrill.

Anfonwch eich cais, yn cynnwys enwau a rhif ffôn dau ganolwr at [apply@chapter.org](mailto:apply@chapter.org) Ni allwn dderbyn CVs.

Ni fyddwn yn gallu cyfarfod gydag ymgeiswyr unigol cyn y cyfweiliad.